



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Deunyddiau Lluosogi Planhigion Llysieuol ac Addurniadol a Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) 2021

DYDDIAD 26 Mawrth 2021

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn y Senedd, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Deunyddiau Lluosogi Planhigion Llysieuol ac Addurniadol a Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) 2021

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:
Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995
- Rheoliadau Marchnata Deunydd Lluosogi Planhigion Addurniadol 1999

Deddfwriaeth yr UE a ddargedwir

- Rheoliad y Comisiwn 217/2006 sy'n pennu rheolau mewn perthynas â'r awdurdodiad sy'n caniatáu i hadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran egino gael eu marchnata dros dro
- Penderfyniad y Comisiwn 80/512/EEC ar ddatgymhwyso amodau ar farchnata hadau planhigion porthiant
- Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC ar gyfwerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau, ac ar gyfwerthedd yr hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd
- Penderfyniad y Cyngor 2005/834/EC ar gyfwerthedd gwiriadau a gynhelir mewn trydydd gwledydd penodol ar arferion ar gyfer cynnal a chadw amrywogaethau

Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2021 yn gweithredu diwygiadau i'r Protocol i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") sy'n ymdrin ag Iwerddon/Gogledd Iwerddon, gan wneud hynny o ganlyniad i Erthygl 1.6 o Benderfyniad 3/2020 y Cydbwyllgor a sefydlwyd gan y cytundeb hwnnw. Mae Erthygl 1.6 yn ychwanegu at Atodiad 2 i'r Protocol dair Cyfarwyddeb gan y Cyngor ar ddeunyddiau atgenhedlu planhigion. Mae'r UE o'r farn bod y Cyfarwyddebau hynny'n hanfodol er mwyn cymhwyso, o ran Gogledd Iwerddon, reolau marchnad fewnol yr UE ar gyfer nwyddau. Cafodd y Cyfarwyddebau hynny eu hepgor pan fabwysiadwyd y Protocol.

Mae Rheoliadau 2021 yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Adran 8C (1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i weithredu'r Protocol. Mae'n gwneud diwygiadau o ran gweithredadwyedd i'r ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol sy'n trosi'r Cyfarwyddebau hynny gan y Cyngor, ac mae hefyd yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol gymwys yr UE a ddargedwir fel y mae'n gymwys ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2021 yn gwneud mân gywiriad i Benderfyniad y Cyngor 2003/17/EC sy'n deillio o ddiwygiad gan Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/162).

Mae Rheoliadau 2021 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n manylu ar darddiad, diben ac effaith y diwygiadau, i'w gweld yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/AI7PitTE/SI-2021393/>

Pam y rhoddwyd caniatâd

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru am resymau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd, er hwylustod, ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn ac nid oes unrhyw wahaniaethau o ran polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.